Cofnodion cyfarfod 11 Gorffennaf 2017 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Gruff John	
Casi Roberts	Eifion Williams	
Nerys John	Mair Bebb Jones	
Sarah Riley	Aled Emyr	
Wynne Barton - Swyddog Ariannol		
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
1.1	Agorwyd y cyfarfod misol gan y Cadeirydd Daniel Williams. Ymddiheuriadau: Mei Gwilym, Iestyn Harris. Anfonwyd ymddiheuriadau hefyd gan y Cynghorydd Sir Gareth Griffiths. Estynnodd y Cadeirydd longyfarchiadau'r Cyngor i bwyllgor Gŵyl y Felinheli ar lwyddiant y fenter.	
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD**	
	Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig mis Mehefin.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Cynghorydd Eifion Williams - Eitem 8.1	
4.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD BLAENOROL**	
4.1	Nid oedd mantolen banc i law oherwydd bod y cyfarfod wedi ei gynnal yn fuan. Cadarnhawyd gwariant mis Mehefin 2017 a derbyniwyd yr adroddiad ariannol.	
4.2	Defnyddiwyd arian Heli Heilyn ar gyfer Noson Lenyddol yng Ngŵyl y Felinheli, cost y noson oedd £240. Cytunodd y Cyngor i'r gost.	
5.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL**	
5.1	Derbyniwyd cofnodion 13 Mehefin 2017 fel rhai cywir. Llofnodwyd y Cofnodion	
6.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y NEUADD**	
6.1	Mae sgaffald wedi ei symud ac mae gwaith y to wedi ei gwblhau.	CLERC
6.2	Mae Peter Cox wedi archwilio'r adeilad ac wedi darganfod "wet Rot". Bydd yn anfon cyfarwyddiadau ar sut i ymdrin â'r cyflwr. Anfoneb Peter Wray am gyd ymweld â Mr Cox yw £113.75.	CLERC
6.3	Mae'r adeiladwyr yn symud ymlaen i weithio ar yr arco drains gan fod mynediad iddynt ar ôl i'r sgaffald gael ei dynnu i lawr. Cost £480 +TAW	DW
7.0	**ADRODDIAD COFEB Y CLOC**	
7.1	Derbyniwyd gwybodaeth bod angen gwneud rhywfaint o waith ar y coed o fewn y cloc sydd yn dal y goleuadau. Mr Peter Wray yn dod yn ôl i archwilio. Y clerc yn adrodd bod popeth wedi mynd ymlaen i sefydliad "War Memorials".	

	Y Clerc am wneud ymholiadau gyda CADW parthed eu cyfraniad hwythau at y gwaith (£8,000).	
8.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
8.1	C17/0575/20/LL diwygio amod 2 o ganiatâd cynllunio rhif C16/0059/20/LL er mwyn newid dyluniad.	
8.2	Hysbyseb Apêl C16/0724/20/AM - tir ger Canolfan Iechyd, Ffordd Glan y Môr, Y Felinheli - GWYBODAETH y tŷ - Plot 2 old Garage Site, Caernarfon Road, Y Felinheli, Gwynedd. GWRTHWYNEBIAD - y Cyngor o farn bod gorr-ddatblygiad yn yr ardal a bod problemau parcio yn bodoli yn barod ar y safle.	
9.0	**ADRODDIAD Y FYNWENT**	
9.1	Archebwyd giât ar gyfer yr ardal pori. Y Cadeirydd yn cynnig ei osod yn ei le.	
9.2	Eglurodd y Swyddog Ariannol mai £422 yw cost gwasanaeth bythefnos bin y fynwent, £231 fyddai cost bin 360L. Penderfynwyd monitro'r bin am y tro.	
9.3	Y Clerc am drefnu i greu arwydd newydd yn rhoi gwybodaeth i ymwelwyr i'r fynwent am sut i gysylltu gydag aelodau o'r cyngor ayyb - hwn i'w yrru at y cadeirydd ac wedyn i'w lamineiddio a'i gosod yn ei le.	CLERC
10.0	**ADRODDIAD MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH**	
10.1	Mae cais wedi ei wneud ar gyfer pris marcio'r maes parcio ond nid yw'r pris wedi ei dderbyn i ddyddiad.	
10.2	Mae ymweliad i'r Maes Parcio gan y Cynghorydd Daniel Williams a'r Cynghorydd Eifion Williams i'w drefnu. Angen trefnu arwydd ac i ail-leoli llefydd parcio.	DW, EW
11.0	**ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEINCIAU**	
11.1	Cafwyd gwybodaeth bod llwybr afon Heilyn wedi ei agor ers yr 22 o Fehefin 2017.	
11.2	Mae tyfiant o amgylch fainc ger Carreg Goch wedi ei dorri.	NJ
11.3	Cafwyd sylwadau gan aelod o'r cyhoedd bod tyfiant llwybr allt gam angen ei dorri yn syth a hefyd ymhen 4 wythnos. Y Clerc i gysylltu ar gontractwr i holi faint o weithiau mae llwybrau yn cael eu torri.	CLERC
11.4	Mae llwybrau ger y Stesion, Cerrig yr afon hefyd angen eu torri. Mae angen archwiliad llwybrau. Mae angen gwell cynllun o fap y llwybrau. Eifion Williams am drefnu hyn.	NJ/EW
11.5	Trefnwyd i swyddog Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd i drefnu sandio y meinciau	CLERC

	sydd yn gyfrifoldeb i'r Cyngor Cymuned. Mae'r rhain yn awr yn barod i'w cael eu paentio gan y gwasanaeth. Nodwyd bod meinciau i lawr ar Lan y Môr mewn cyflwr gwael a bod modd achosi niwed i'r cyhoedd buasai yn eu defnyddio. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda'r swyddog priodol yng Nghyngor Gwynedd.	
12.0	**ADRODDIAD PRIFFYRDD**	
12.1	Y Clerc i ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i wneud ymholiad beth sydd yn cael ei ystyried i ddatrys gyrru a pharcio gwael yn ardal y Marina.	CLERC
12.2	Cyflwynwyd ymateb y Cyngor Sir ynglŷn â Lôn Bethel. Penderfynwyd derbyn bod gwaith gan Watkin Jones fel rhan o ddatblygiad Ger y Nant i ymylon y ffordd wedi ei gwblhau; er hynny bod angen anfon at Gyngor Gwynedd yn gofyn a byddent yn ymdrin â'r ymylon sydd heb dderbyn gwaith ar sail bod iechyd a diogelwch i gerddwyr.	CLERC
12.4	Cafwyd cadarnhad bod gwaith ar gully ger Aberpwll wedi ei wneud.	CLERC
13.0	**PROSIECTAU**	
13.1	**Planters** - trafodwyd lleoliad y planters ynghyd ac asesiadau risg, cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd a Chyngor Cymuned. Cynghorydd Sarah Riley am anfon at Alun Wyn Jones ac Alun Evans ynglŷn â lleoliad y planters.	
14.0	**TOILEDAU CYHOEDDUS**	
	Roedd adroddiad i law bod y toiledau wedi bod allan o wasanaeth - Y Clerc i drafod gyda swyddog y Cyngor.	CLERC
15.0	**GWEFAN**	
15.1	Angen symud ymlaen, yr aelodau i gyflwyno strwythur i Delwedd.	
16.0	**MATERION AMRYWIOL**	
16.1	Bydd Cyfarfod Mis Medi o dal lywyddiaeth y Cynghorydd Iestyn Harris	CLERC
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 09:15	
Llofnod:		Dyddiad: